Tun Sardîns

(ofn / penderfyniad / meddwl am eraill)

Chwipiai'r eira'n ddidrugaredd. Ar brydiau doedd Holman yn gweld dim ond plu eira yn chwyrlïo heibio iddo. Hon oedd y storm eira fwyaf a welsai y peilot 45 oed yn ei fywyd. Roedd wedi meddwl glanio ei awyren fechan Maulem X7 ar lain o dir ar yr arfordir ond gwell oedd anghofio am hynny a cheisio cyrraedd pen ei daith. Ar ôl hanner awr o deithio cliriodd y storm. Meddyliodd Michael, "Rydw i am lanio wedi'r cwbl. Mi ga i seibiant a chyfle i fynd am dro." Troellodd yr awyren fechan o gwmpas y llain a glanio'n esmwyth. Doedd Michael ddim wedi sylweddoli fod yr awyren wedi glanio'n agos iawn i'r môr. "O! mi fydd popeth yn iawn," meddai wrtho'i hun. "Go brin y daw y llanw i fyny yn ystod yr hanner awr nesaf."

Aeth am dro ar hyd y glannau. Bu'n gwylio adar y môr yn heidio o'i gwmpas. Roedd wedi ymgolli yn yr olygfa o'r adar yn hedfan yn un haid ac yn troelli'n ôl a blaen. Edrychodd ar ei oriawr. Roedd bron i ddwy awr wedi mynd heibio. Brasgamodd yn ôl tua'r awyren. Pan gyrhaeddodd yn ôl roedd y tonnau'n lluchio dros yr awyren. Ceisiodd ei orau glas i danio'r peiriant ond doedd dim yn digwydd. Llwyddodd i dynnu ei fag ac ychydig o duniau sardîns o'r awyren cyn i'r môr ei llyncu'n gyfan gwbl.

Doedd ganddo ddim syniad beth i'w wneud. Roedd yr offer cyfathrebu ar fwrdd yr awyren. Doedd dim modd cysylltu â neb. Doedd dim golwg o fywyd yn unman dim ond cri'r gwylanod. Doedd dim amdani ond dechrau cerdded, ond i ba gyfeiriad? Meddyliodd am ychydig, "Mi gerdda i i'r cyfeiriad acw," meddai gan bwyntio at y tir oedd yn arwain ar hyd y glannau, "a phan fydd hi wedi nosi gobeithio y daw seren y gogledd i'r golwg." Cododd hyn ei galon a cherddodd yn dalog. Chwythai'r gwynt yn ddidrugaredd a dechreuodd fwrw eira. Cysgododd yn ymyl craig enfawr oedd yn codi o'r môr. Dechreuodd nosi ond doedd dim golwg o seren y gogledd yn unman gan fod y storm eira wedi gorchuddio'r awyr i gyd. Syrthiodd i gysgu.

Bu'n cysgu am rai oriau cyn iddo gael ei ddeffro gan gorwynt. Ond dim ond oriau mân y bore oedd hi. Agorodd un o'r tuniau sardîns. Llowciodd y cynnwys mewn eiliad. Cododd i chwilio am seren y gogledd ond yn ofer. Roedd y gwynt yn nerthol a'r

eira'n lluwchio. Roedd yn rhaid mynd ymlaen er mwyn ei wraig a'i blant. Mae'n bur debyg eu bod nhw'n poeni eu henaid amdano. A dyna fu ei hanes am y dyddiau nesaf. Brwydro ymlaen drwy'r stormydd, cysgu am rai oriau yn ystod y nos a byw ar weddill y tuniau sardîns.

Ar ôl ymlafnio fel hyn am bedwar diwrnod, ar fore'r pumed diwrnod gwelodd siâp adeilad yn y pellter. "O'r diwedd," meddai, "dim ond gobeithio bod yna rywun yn byw yn yr adeilad yma." Erbyn hyn roedd yn wan iawn. Doedd ganddo ddim i'w fwyta. Roedd y tuniau sardîns wedi gorffen. Aeth at ddrws yr adeilad. Curodd. Dim ateb. Gwthiodd y drws i'w agor. Roedd yr adeilad yn wag. Ond tarodd ei lygaid ar radio VHF. Yn ymyl y radio roedd map, dŵr a reis. Trodd nobyn y radio yn araf. Clywai lais yr ochr arall. Oedd, roedd yn gallu cysylltu â Ceidwad y Glannau. Bu'r ddau'n gohebu am rai munudau. Y geiriau oedd yn troelli yn ei feddwl oedd, "Mi fyddwn ni efo chi ymhen rhyw dair i bedair awr." Arhosodd yno gerllaw'r adeilad ond yna cododd storm arall. Aeth y pedair awr yn bump, yn chwech, yn saith, yn wyth awr. Ciliodd y storm a gwelai'r llong achub yn y bae bychan.

Cafodd groeso i'w gofio gan Nichi ei wraig, a'i blant Charlie, 12 oed a Laura, 9 oed. Ac meddai Nichi, "Dydio ddim yn mynd i gael awyren newydd, nag ydi byth."

Adnod: "Ym mhob dim rhowch ddiolch..." 1 Thes. 5:18

Gweddi: O Dduw, pan fydd pethau'n mynd yn drech na fi, helpa fi i gofio am fy nheulu a'm ffrindiau. Amen.

Trafod:

- Ceisiwch roi eich hunain yn esgidiau Michael. Trafodwch y profiadau a gawsoch.
- Beth yw eich barn chi am frawddeg olaf Nichi ei wraig?